Cyngor Sir Penfro

Datganiad o Fwriad: Cymhwystra Hyblyg

(f 1.2)

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwystra hyblyg Cyngor Sir Penfro ar gyfer y rhaglen Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO): Help i Wresogi Hydref 2018-Mawrth 2022. Ei nod yw cefnogi'r teuluoedd hynny yn Sir Benfro sydd fwyaf tebygol o brofi tlodi tanwydd, ynghyd â'r rhai sy'n agored i niwed o effeithiau cartref oer.

Cyflwyniad – mae Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn croesawu cyflwyno'r Cymhwystra Hyblyg eleni, ac mae'n bwriadu ei ddefnyddio i ddibenion lleihau tlodi tanwydd yn y sir. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ers blynyddoedd lawer i wella cartrefi ledled Sir Benfro ac, yn fwyaf diweddar, ar wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd.

Ystyr cymhwystra hyblyg – mae gan Awdurdodau Lleol sy'n gweithio gyda chyflenwyr Ynni a orfodir dan ECO y cyfle i ymestyn y meini prawf cymhwystra ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni i gartrefi nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau cymorth presennol.

Targedu cartrefi – dim ond ar gyfer perchnogion preifat a thenantiaid rhent preifat y mae'r arian hwn ar gael. Bydd yr hawl i gymhwystra hyblyg yn Sir Benfro yn cael ei bennu gan y meini prawf a restrir isod o dan Gwestiynau 1 a 2, a bydd yn ofynnol cael datganiad wedi'i lofnodi gan berchennog yr eiddo.

Cwestiwn 1 Meini Prawf Cymhwyso

I fod yn gymwys:

i) rhaid i'r eiddo fod â sgôr o **D, E, F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni** neu

ii) rhaid i'r eiddo fod â sgôr o **10 pwynt neu fwy** yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1 – Cyflwr yr Eiddo

Manylion yr Eiddo	**Math**	**Pwyntiau**	**Ticiwch y blwch**	**Sgôr**
Nifer yr Ystafelloedd Gwely	1	1		
	2	2		
	3+	3		
Nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo	1	1		
	2	2		
	3+	3		
Faint o Inswleiddiad Atig	Dim	5		

sydd yn yr eiddo?	Hyd at 150 mm	3		
	150 mm a rhagor	1		
Y Math o Wal	Modiwlar	5		
	Brics/carreg solet	3		
	Adeiladwaith ceudod/Ddim yn hysbys	1		
Faint o Inswleiddiad Wal sydd yn yr eiddo?	Allanol	1		
	Mewnol	1		
	Ceudod	2		
	Dim	5		
	Ddim yn hysbys	2		
Y math o danwydd Gwresogi sy'n cael ei ddefnyddio yn yr eiddo	Nwy prif gyflenwad	1		
	Olew	2		
	LPG	3		
	Trydan	5		
	Tanwydd Solet	5		
A oes system Gwres Canolog yn yr eiddo, a beth yw ei hoedran?	Llai na 10 mlwydd oed	1		
	Dros 10 mlwydd oed	3		
	Y system wedi torri	5		
	Dim system	5		
			Cyfanswm	

Cwestiwn 2 – Y Perygl i'r Cleient a Thlodi Tanwydd
Er mwyn arddangos bod deiliaid cartrefi mewn mwy o berygl o ganlyniad i effeithiau byw mewn cartref oer, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r dull canlynol.

Bydd cartref yn gymwys:

i) o dan Dlodi Tanwydd os yw'n gwario mwy na 10% o'i incwm ar gostau tanwydd i'r cartref; neu

ii) Mae canllaw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ynghylch marwolaethau a salwch ychwanegol y gaeaf, a'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â chartrefi oer, yn nodi bod oerfel yn golygu bod amrywiaeth eang o bobl mewn mwy o berygl. Mae hyn yn ganlyniad i naill ai gyflwr meddygol, megis clefyd y galon; anabledd, sydd, er enghraifft, yn atal pobl rhag symud o gwmpas i gadw'n gynnes neu'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn datblygu heintiau ar y frest; neu amgylchiadau personol, er enghraifft methu fforddio cadw'n ddigon cynnes.

Felly, gan adlewyrchu canllawiau 2015 (NICE) ar farwolaethau a salwch ychwanegol y gaeaf a achosir gan gartrefi oer, bydd cartrefi hefyd yn gymwys os ydynt yn cynnwys y bobl a restrir isod.

Mae'r cartref yn cynnwys aelod(au) sy'n/sy'n dioddef o:
i. Hŷn na 60 oed (bydd prawf oedran yn angenrheidiol)

ii. Plant dan 5 oed, plant mewn addysg ysgol gynradd ac uwchradd, neu fam feichiog
iii. Clefyd resbiradol (clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), asthma)
iv. Clefyd cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemia'r galon, clefyd serebro-fasgwlaidd)
v. Salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol)
vi. Camddefnyddwyr sylweddau
vii. Dementia
viii. Clefydau niwrofiolegol a chlefydau cysylltiedig (e.e. ffibromyalgia, ME)
ix. Canser
x. Symudedd cyfyngedig
xi. *Haemoglobinopathies* (clefyd y crymangelloedd, thalasaemia)
xii. Anableddau dysgu difrifol
xiii. Clefydau awto-imiwn ac imiwnoddiffygiant (e.e. lwpws, MS, diabetes, HIV)

Os nad oes tystiolaeth arall ar gael, bydd datganiad wedi'i lofnodi gan feddyg neu ymarferydd iechyd yn ofynnol i gadarnhau unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd a restrir yn iii-xiii.

Llwybrau Atgyfeirio – caiff y cynllun ei farchnata trwy wefan y Cyngor, deunydd marchnata, a thrwy gysylltiad arferol â phreswylwyr. Bydd manylion y cynllun hefyd yn cael eu darparu i randdeiliaid eraill sy'n gweithio gyda chartrefi agored i niwed. Gall Contractwyr nodi eiddo (gweler isod) trwy ddata cofrestr y Dystysgrif Perfformiad Ynni, sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd cartrefi sy'n hunanadnabod ac yn rhoi gwybod i'r Cyngor yn cael manylion cyswllt y Contractwyr, a fydd yn gyfrifol am lenwi holiaduron cymhwystra a chynnal arolygon o eiddo.

Mesurau cymhwyso – mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni y gellir eu gosod mewn eiddo cymwys yn cynnwys systemau gwres canolog newydd, ynghyd ag uwchraddio ac inswleiddio, ond efallai na fyddant yn cael eu cyfyngu i'r rhain. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn cefnogi prosiectau inswleiddio waliau solet, sef 'mewnlenwi', lle nad yw cartrefi'n gymwys o dan y cynllun.

Contractwyr – rhaid i gyflenwyr ynni neu asiantau cyflenwyr ynni sy'n ymwneud ag arolygon cymhwystra hyblyg a gwaith a nodir, ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth â Chyngor Sir Penfro ynghylch gweinyddu cymhwystra, a fydd yn cynnwys Cytundeb Prosesu Data. Bydd cyflenwyr ynni neu asiantau cyflenwyr ynni yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn ôl gofynion Ofgem, ac yn gweithredu'n unol ag arfer gorau'r diwydiant mewn perthynas â gofal defnyddwyr a safonau ansawdd.

Penderfyniad terfynol – y cyflenwyr ynni neu eu hasiantau/contractwyr fydd yn penderfynu a yw cartref i gael mesur o dan gymhwystra hyblyg neu ffrydiau ariannu ECO eraill, ynghyd â phenderfynu a yw'r mesur hwnnw i gael ei osod yn rhad ac am ddim, neu a fydd yn ofynnol i'r cartref gyfrannu at y gost. Ni fydd cymhwysedd o dan y datganiad o fwriad neu mewn Datganiad gan y Cyngor yn gwarantu y bydd unrhyw fesurau yn cael eu gosod gan mai'r cyflenwr fydd â'r penderfyniad terfynol.

Llywodraethu
Bydd y swyddogion isod yn gyfrifol am lofnodi Datganiadau ar ran yr Awdurdod lleol :

i) Andrew Davies-Wrigley – Rheolwr Strategaeth Tai'r Sector Preifat a Thai a/neu
ii) Philip Jackson – Uwch-swyddog Adnewyddu, a/neu
iii) Swyddogion dirprwyedig eraill.

Monitro
Bydd nifer y cartrefi y cysylltir â hwy ac sy'n gymwys ar gyfer Cymhwystra Hyblyg ECO, nifer y mesurau a ariennir gan Gymhwystra Hyblyg ECO ac a osodir, a nifer y cartrefi sy'n cael eu gwella, oll yn cael eu cofnodi gan Gyngor Sir Penfro. Efallai y bydd angen y data a gesglir o ffurflenni cais ar gyfer gwaith monitro ac adborth ar y cynllun yn y dyfodol, a gallai hyn gynnwys cysylltu â theuluoedd yn uniongyrchol. Bydd unrhyw wybodaeth o'r fath yn cael ei chadw am uchafswm o dair blynedd o ddiwedd y cynllun.

Llofnod

Llofnodwyd: .....

Dyddiad: 28/03/19

Printiwch Eich Enw: Ian Westley

Swydd: Prif Weithredwr
Cyngor Sir Penfro